A ellir gadael person ar ei ben ei hun yn ei weithle?

Nid oes cyfyngiadau pendant ar weithio ar eich pen eich hun; bydd yn dibynnu ar ganfyddiadau'r asesiad risg.

Bydd dau ddarn o ddeddfwriaeth yn berthnasol:

Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith etc 1974: Mae Adran 2 yn nodi dyletswydd gofal ar gyflogwyr i sicrhau iechyd, diogelwch a lles eu cyflogeion tra'u bod yn y gwaith.

Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y gwaith 1999:
Mae Rheoliad 3 yn nodi bod rhaid i bob cyflogwr wneud asesiad addas a digonol o –

- y risgiau i iechyd a diogelwch ei gyflogeion y maent wedi'u hamlygu iddynt tra'u bod yn y gwaith;
- y risgiau i iechyd a diogelwch pobl nad ydynt yn ei gyflogaeth sy'n codi o'i ymddygiad neu mewn cysylltiad â'i ymddygiad.

Mae'r HSE wedi cynhyrchu'r cyhoeddiad canlynol:

- **Working Alone in Safety – taflen am ddim** [65kb]

Er nad oes gwaharddiad cyfreithiol cyffredinol ar weithio ar eich pen eich hun, mae dyletswyddau cyffredinol Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith a Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith yn parhau i fod yn gymwys. Mae'r rhain yn ei gwneud yn ofynnol i nodi peryglon yn y gwaith, asesu'r risgiau dan sylw, a rhoi mesurau ar waith i osgoi neu reoli'r risgiau.

Gall mesurau rheoli gynnwys cyfarwyddyd, hyfforddiant, goruchwyliaeth, cyfarpar diogelu ac ati. Dylai cyflogwyr gymryd camau i sicrhau y defnyddir mesurau rheoli ac adolygu'r asesiad risg o bryd i'w gilydd i sicrhau eu bod yn ddigonol o hyd.

yn ôl i'r brig

Pan fydd asesiad risg yn dangos nad yw'n bosibl i'r gwaith gael ei wneud yn ddiogel gan weithiwr unigol, dylid rhoi trefniadau ar gyfer darparu cymorth neu gefnogaeth ar waith. Pan fydd gweithiwr unigol yn gweithio yng ngweithle cyflogwr arall, dylai'r cyflogwr hwnnw hysbysu cyflogwr y gweithiwr unigol o unrhyw risgiau a'r mesurau rheoli y dylid eu cymryd. Mae hyn yn helpu cyflogwr y gweithiwr unigol i asesu'r risgiau.

Dylai asesiad risg helpu i benderfynu'r lefel gywir o oruchwyliaeth. Ceir rhai gweithgareddau â risg uchel pan fydd angen i o leiaf un person arall fod yn bresennol. Er enghraifft gweithio mewn lle cyfyng â risg uchel pan fydd angen i oruchwyliwr fod yn bresennol, yn ogystal â rhywun penodedig ar gyfer y rôl achub, a gwaith trydanol wrth ymyl dargludyddion byw agored lle bydd angen o leiaf ddau o bobl weithiau.

Ni ddylai gweithwyr unigol fod mewn mwy o berygl na chyflogeion eraill. Efallai y bydd angen mesurau rheoli risg ychwanegol. Dylai rhagofalon ystyried y gwaith

arferol ac argyfyngau rhagweladwy, e.e. tân, methiant cyfarpar, salwch a damweiniau. Dylai cyflogwyr nodi sefyllfaoedd lle bydd pobl yn gweithio ar eu pennau eu hunain ac yn gofyn cwestiynau fel:

1. A yw'r gweithle yn cyflwyno risg arbennig i'r gweithiwr unigol?
2. A oes ffordd ddiogel i mewn ac allan ar gyfer un person? A all un person drin cyfarpar mynediad dros dro sydd eu hangen, fel ysgolion symudol neu drestlau, yn ddiogel?
3. A all un person drin yr holl offer, sylweddau a nwyddau sy'n gysylltiedig â'r gwaith yn ddiogel? Dylid ystyried p'un a yw'r gwaith yn ymwneud â chodi pethau sy'n rhy fawr i un person neu p'un a oes angen mwy nag un person i weithredu rheolaethau hanfodol ar gyfer defnyddio'r cyfarpar yn ddiogel.
4. A oes risg o drais?
5. A oes mwy o risg i ferched os ydynt yn gweithio ar eu pennau eu hunain?
6. A oes mwy o risg i weithwyr ifanc os ydynt yn gweithio ar eu pennau eu hunain?
7. A yw'r person yn ddigon iach ac yn addas i weithio ar ei ben eu hun?
8. Beth fydd yn digwydd os bydd y person yn mynd yn sâl, yn cael damwain neu os bydd argyfwng?